COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O’R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 23 MEHEFIN 2026 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| GC Haines | HM Williams | E L P Caparros | M J Evans |
| M Jones | C Davies | | |

Presennol – O Bell

J Gebbie

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD ac Etholiadau |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Parth Cyhoeddus |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Kate Pask | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

**639. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

## 640. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd y datganiadau buddiant canlynol:<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Spanswick ddatgan buddiant personol yn eitem 5, gan fod Aelod o’r teulu yn gweithio yn y maes gwasanaeth. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

## 641. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | | |
|---|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: | Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 19/05/2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 | |

## 642. Ymateb Asesiad Perfformiad y Panel

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor, oedd cyflwyno i'r Cabinet ymateb drafft y Cyngor i argymhellion Asesiad Perfformiad y Panel a gynhaliwyd rhwng 16 a 19 Medi 2025 er mwyn iddynt ei ystyried.<br><br>Cydnabuwyd bod y Cyngor yn ei hanfod mewn cyflwr da ond bod ganddo botensial heb ei wireddu na ellir ei wireddu oni bai ei fod yn cael ei weithredu’n gyflym.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• Terfynau amser tynn ar gyfer camau i'w cymryd o fewn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Prif Weithredwr.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>1. Cymeradwyo'r Ymateb drafft i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel (Atodiad 2 i'r adroddiad) i'w gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Mehefin 2026.<br><br>2. Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel ym mis Medi 2025 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r Ymateb i Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel (Atodiad 2 i'r adroddiad) a'u dosbarthu i'r derbynwyr a nodir ym mharagraff 3.5, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.<br><br>Diolchodd y Cabinet ymhellach i'r Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith yn paratoi'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

**643. Ailfodelu Gwasanaethau Cam-drin Domestig**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i atal dros dro y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor (CPRs) mewn perthynas â'r angen i dendro ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig; a dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Plant a Theuluoedd, i ymrwymo i gontract 12 mis, gyda'r dewis i ymestyn am 12 mis pellach, gyda'r darparwr gwasanaethau cam-drin domestig presennol a gomisiynwyd er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth tra cynhelir adolygiad gwasanaeth ehangach i fodelau darparu yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>1. Cymeradwyo atal dros dro y rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor er mwyn ei gwneud yn bosibl dyfarnu contract 12 mis pellach i Merthyr Tudful Diogelach, gyda'r |

| | |
|---|---|
| | dewis o'i ymestyn am 12 mis ychwanegol pe bai angen.<br><br>2. Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, i gymeradwyo telerau terfynol y Contract ar ran y Cyngor.<br><br>3. Nodi y caiff gwerthusiad o ddewisiadau ei ddatblygu, gydag unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyaeth bellach yn unol â phrosesau llywodraethu'r Cyngor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

**644. Alldro Cyllideb Refeniw 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2026.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cabinet wedi nodi sefyllfa alldro'r refeniw ar gyfer 2025-26. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

**645. Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol, Pwyllgorau ar y Cyd a Phwyllgorau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr 31ain o Fawrth 2026.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi penodi'r nifer gofynnol o Aelodau i'r Cydbwyllgorau, Pwyllgorau'r Cabinet a chyrff allanol eraill fel y'u rhestrwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

**646. Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, oedd gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddiwygio swyddogaethau Gweithredol o fewn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>1. Cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau diwygiedig mewn perthynas â'r swyddogaethau Gweithredol (Atodiad 1 i'r adroddiad) a Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Gontractau (Atodiad 2 i'r adroddiad); yn amodol ar y gwelliant canlynol i Gynllun A, paragraff 1.10:<br><br>Yn amodol ar gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ac mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid, i awdurdodi atal dros dro y gofynion i gaffael mewn dull cystadleuol, fel yr eglurir yn rheolau 7 ac 8 o Reolau'r Weithdrefn Gontractau, a gwneud contract gan ddibynnu ar ataliad o'r fath ar yr amod nad yw gwerth y contract yn fwy na £1 filiwn. Ni roddir cymeradwyaeth o'r fath ond mewn amgylchiadau eithriadol fydd wedi eu llwyr gyfiawnhau pan fo cydymffurfio'n amlwg yn anymarferol a phan fydd cyngor caffael priodol hefyd wedi ei gael a'i ddilyn.<br><br>2. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau a gwelliannau i'r testun yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau i gymryd newidiadau mewn deddfwriaeth i ystyriaeth a newidiadau i deitlau a chyfrifoldebau Swyddogion ac Aelodau; |

| | |
|---|---|
| | 3. Nodi y caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ymgorffori Rheolau diwygiedig y Weithdrefn Gontractau a gofyn am gymeradwyo'r gwelliannau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

## 647. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

## 648. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNIAD: O dan adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad At Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol o fusnes gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 o ran 4 a pharagraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem a oedd wedi'i dan grybwyll yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth iddynt sydd wedi'i eithrio fel y nodwyd uchod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

## 649. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

**CABINET - DYDD MAWRTH, 23 MEHEFIN 2026**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 23 Mehefin 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 15:21